



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Arweiniad i'r Warchodfa
Reserve Guide



Gwarchodfa Natur Genedlaethol

Cors Caron

National Nature Reserve

// Dewch o hyd i gyfrinachau'r gyforgors arbennig hon
Discover the secrets of this special raised bog



cyfoethnaturiol.cymru
naturalresources.wales



**Cymru
Wales**



Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron

Mae'r warchodfa fawr hon yn cwmpasu ardal o dros 800ha (neu dair milltir sgwâr). Mae'r tair cyforgors yn fyd-enwog – sef ardaloedd o fawn dwfn sydd wedi datblygu dros y 12,000 o flynyddoedd diwethaf. Canolbwynt y warchodfa yw Afon Teifi a'i gorlifdir.

Mae'r rhain wedi'u hamgylchynu gan amrywiaeth gyfoethog o gynefinoedd, sy'n gwneud y warchodfa yn safle ardderchog ar gyfer bywyd gwyllt.

Fry uwchben y warchodfa mae'n bosibl gweld barcut, hebog yr ieir, y gylfinir a'r ehedydd yn hedfan, tra bod gwas y neidr, madfall a'r dyfrgi yn symud drwy'r gors.

Tair Cyforgors Fawn

Dyma rai o'r enghreifftiau gorau o gyforgorsydd mawn ym Mhrydain, gyda miliynau o fetrau ciwbig o fawn hyd at ddyfnder o ddeg metr.

Afon Teifi a'i gorlifdir

O bwysigrwydd rhyngwladol fel Ardal Cadwraeth Arbennig Ewropeaidd mae'r gorlifdir helaeth yn wyllt ac anghysbell.

Llwybr yr Hen Reilffordd

Mae Llwybr yr hen reilffordd o Aberystwyth i Gaerfyrddin, sy'n dilyn ymyl Cors Caron, wedi datblygu ystod eang o gynefinoedd ers cau'r rheilffordd yn y 1960au. Mae'n ffurfio rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol Ystwyth.

Cors Caron National Nature Reserve

This large reserve covers an area of over 800ha (or three square miles). The three raised bogs are world famous – areas of deep peat that have built up over the last 12,000 years. The River Teifi and its floodplain form the centre of the reserve.

These are surrounded by a rich mix of habitats, making the reserve a fantastic place for wildlife.

Keep an eye out for red kite, hen harrier, curlew and skylark in the skies above the reserve, whilst the bog itself bustles with dragonflies, lizards and otters.

Three Raised Peat Bogs

These are some of the most intact examples of raised peat bogs in Britain, with millions of cubic metres of peat up to ten metres deep.

River Teifi and its floodplain

Internationally important in its own right as a European Special Area of Conservation (SAC) and the extensive floodplain feels wild & remote.

Old Railway Walk

The route of the old Aberystwyth to Carmarthen railway running along the margin of Cors Caron has developed a wide range of habitats since the railway's closure in the 1960s. It forms part of the Ystwyth National Cycle Trail.

© Airbus Defence & Space a Getmapping. Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) - Chwefror 2019

© Airbus Defence & Space and Getmapping. Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) - February 2019



Your first glimpse of Cors Caron will tell you that this is a very unusual place.

It's something about the colour: rusty red for much of the year. It's something about the wilderness of the place. Of the big open skies above. And it's the contrast with the green pasture and oak-wooded slopes on either side of the wide valley it dominates. It stands out as different.

And different it certainly is. Wetlands like Cors Caron are very rare. With their vegetation uniquely adapted to a life of heavy rainfall and rooted in coal-black peat, this mire is a patchwork of mosses, sedges, heathery plants, white-fluffed cotton grasses, watery pools and scattered patches of willow and birch trees.

Deep rusty-red in autumn and much of the winter, Cors Caron's colour changes subtly with the season. Spring brings more green as trees come into leaf and the purple moor grass and rushes sprout new shoots. Summer brings creams and browns; sedges maturing, cotton grass buds swaying in the breeze and the purple moor grass bleaching.







Fe welwch o'ch cipolwg cyntaf o Gors Caron fod hwn yn lle anarferol iawn.

Mae yna rywbeth am y lliw: coch rhydlyd am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Mae yna rywbeth am ddiffieithwch y lle. Yr awyr agored enfawr. A'r cyferbyniad â'r borfa las a'r llethrau o goed derw ar bob ochr i'r dyffryn llydan islaw. Mae golwg wahanol ar y lle.

Ac mae'n sicr yn lle gwahanol. Mae gwlypdiroedd fel Cors Caron yn brin iawn. Gan fod y llystyfiant wedi addasu'n unigryw i fywyd o law trwm a chan ei fod wedi

ei wreiddio mewn mawn sy'n ddu fel glo, mae'r llaid hwn yn glytwaith o fwsogl, hesg, planhigion grugog, plu'r gweunydd â manflew gwyn, pyllau dyfrllyd a darnau o dir wsgaredig o goed helyg a bedw.

Mae lliw Cors Caron, sy'n goch rhydlyd dwfn yn yr hydref a llawer o'r gaeaf, yn newid ychydig bach gyda'r tymhorau. Daw'r gwanwyn â mwy o wyrdd wrth i goed ddeilio ac wrth i laswellt y gweunydd a'r brwyn dyfu blagur newydd. Daw'r haf â lliwiau hufen a brown; yr hesg yn aeddfedu, blagur plu'r gweunydd yn symud yn yr awel a glaswellt y gweunydd yn gwynnu.

-  parcio parking
-  hygyrch accessible
-  toiledau toilets
-  llwybr cyhoeddus public footpath
-  llwybr ceffylau cyhoeddus public bridleway
-  ffin y warchodfa GNG NNR reserve boundary



Ewch am dro yng Nghors Caron

Mae gennych dri llwybr i ddewis ohonynt fan hyn.

Llwybr sydd werth ei gerdded yw **Llwybr Cors Caron** lle mae llwybr pren yn eich arwain allan ar y gors ac at adeilad gwyllo arbennig, sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Mae **Llwybr yr Hen Reilffordd** yn llwybr llinellol ar hyd ffordd adran Ystrad Meurig i Dregaron o Reilffordd Manceinion ac Aberdaugleddau,

a gaeodd yn y 1960au. Mae'n mynd yr holl ffordd i lard yr Hen Orsaf yn Ystrad Meurig. Mae'r arwynebedd yn dda i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn.

Mae **Llwybr Glan yr Afon** yn llwybr mwy anturus sy'n mynd â chi ar hyd afon Teifi ac yn ôl ar hyd yr hen reilffordd. Gall fod yn wlyb iawn dan draed a chymerwch ofal wrth ymyl yr afon – efallai y byddwn yn ei gau os bydd yn rhy uchel.

Stride out at Cors Caron

You have three walks to choose from here.

The 'must-do' walk has to be the **Cors Caron Walk** with its boardwalk taking you out onto the bog and special viewing hide, accessible to wheelchair users.

The Old Railway Walk is a linear walk along the route of the Manchester and Milford Railway's Ystrad Meurig to Tregaron section, which closed in

the 1960s. It goes all the way to The Old Station Yard at Ystrad Meurig. It's a good surface for walkers, cyclists and wheelchair users.

The Riverside Walk is a more adventurous walk that takes you along the river Teifi and back along the old railway line. It can be very wet underfoot and take care by the river – we may close it if it is too high or if we need to do work along it.

LLWYBR CORS CARON



Hygyrch

Pellter: 1½ milltir/2.6km
taith gron
Amser: 1 awr

UCHAFBWYNTIAU: Mae arwyneb bob tywydd yn addas i gadeiriau olwyn yn arwain at Guddfan y Gors hygyrch ble y gallech chi weld adar bridio ac adar gaeafu.

DISGRIFIAD: Cerddwch drwy rai o rannau mwyaf trawiadol y warchodfa. Edrychwch am weision neidr, mursennod a madfallod yn ystod yr haf.

LLWYBR GLAN YR AFON



Cymedrol

Pellter: 4½ milltir/7km
taith gron
Amser: 2½ awr

UCHAFBWYNTIAU: Llwybr i galon Cors Caron, golygfeydd bendigedig a'r cyfle i weld adar y dŵr, barcudiaid coch ac adar rheibus eraill.

DISGRIFIAD: Er gwybodaeth fe all y llwybr fod ar gau ar brydiau oherwydd llifogydd neu am resymau rheoli ac yn gallu bod yn fwdlyd iawn ar brydiau.

LLWYBR YR HEN REILFFORDD



Hawdd

Pellter: 6 milltir/10km allan ac yn ôl
Amser: 3 awr

UCHAFBWYNTIAU: Mae'r rheilffordd segur yn cynnig arwyneb cadarn sy'n addas i gadeiriau olwyn ac mae'n cynnig golygfeydd da o ran helaeth o Gors Caron.

DISGRIFIAD: Mae'n rhan o Llwybr Beicio Cenedlaethol Ystwyth ac mae'r llwybr yn cael ei rannu rhwng cerddwyr, beicwyr a marchogion ceffylau.

CORS CARON WALK



Accessible

Distance: 1½ miles/2.6km
circular
Time: 1 hour

HIGHLIGHTS: An all-weather surface suitable for wheelchair users leads to an accessible Bog Hide where you may see breeding and over-wintering birds.

DESCRIPTION: Walk through some of the most impressive parts of the reserve. Look out for dragonflies, damselflies and lizards in the summer.

RIVERSIDE WALK



Moderate

Distance: 4½ miles/7km circular
Time: 2½ hours

HIGHLIGHTS: A walk into the heart of Cors Caron, wonderful views and the chance of seeing waterbirds, red kites and other birds of prey.

DESCRIPTION: Please note that the walk may be closed at times due to flooding or for management reasons and can be very muddy at times.

OLD RAILWAY WALK



Easy

Distance: 6 miles/10km there & back
Time: 3 hours

HIGHLIGHTS: The disused railway provides a firm surface suitable for wheelchairs and gives good views over much of Cors Caron.

DESCRIPTION: This is a part of the Ystwyth National Cycle Trail and is a shared-use trail for walkers, cyclists and horse riders.

Nid yw'r gors yn wastad

O edrych ar draws Cors Caron mae'n amlwg nad yw'n wastad. Ddim o bell ffordd. Mae rhannau mawr o'r gors wedi codi i gromen ac mae'r pen uchaf yn 5 metr uwch ben lefel y tir o amgylch. Dyna pam fod Cors Caron yn gyforgors enwog - ac mae'n un o'r enghreifftiau gorau yn y DU.

Mwsogl sy'n creu corsydd

Sut ymddangosodd y cromenni hyn? Pan ddechreuodd yr hinsawdd fod yn rhy wlyb ar gyfer coed tua 7000 o flynyddoedd yn ôl, dim ond migwynnau oedd yn gallu goroesi a thyfu ar y mawn. Wrth i'r rhain farw'n naturiol, dim ond pydru'n rhannol

wnaethon nhw gan ffurfio'r mawn brown tywyll ble tyfodd rhagor o figwynnau.

Dros filoedd o flynyddoedd, adeiladodd wyneb y mawn yn gromen esmwyth. Mae'r migwynnau - o rai coch i rai gwyrdd - yn dal i dyfu yma'n doreth.

Mae bywyd ar y gromen yn anodd. Mae'r planhigion - fel plu gweunydd â blodau gwyn a grug deilgroes porffor - yn dibynnu ar ddŵr glaw. Pe na byddai mawn yn ymddwyn fel sbwng anferth, ni fydden nhw'n gallu goroesi. I gyforgorsydd fel Cors Caron, glaw yw eu cynhaliaeth.



migwyn | sphagnum moss



migwyn | sphagnum moss



plu'r gweunydd | cotton grass

The bog's not flat

A glance across Cors Caron and it's obvious that it isn't flat. Far from it. Large parts of it are raised up into a dome, the top of which is an incredible 5 metres above the level of the land around. That's why Cors Caron is known as a 'raised bog' - and one of the best examples in the UK.

Bog-making mosses

How did these domes appear? When the climate first became too wet for trees about 7000 years ago, only bogmosses (sphagnum species) could survive and grow on the peat. As these died naturally they

only partly decomposed, forming the dark brown peat on which more bogmosses grew.

Over millennia, the peat surface built up into a gentle dome. The bogmosses - coloured anything from ruby red to emerald green - still grow here in profusion.

Life on this gentle hump is tough. The plants - like white-flowering cotton grass and purple cross-leaved heath - rely on rainwater. If peat didn't act like a giant sponge, they couldn't survive. For raised bogs like Cors Caron, rain is their lifeblood.



Torrwyr mawn bryd hynny a thorwyr coed nawr

Efallai mai diffeithwch gwlypdir ydyw nawr, ond mae Cors Caron wedi bod yn ddefnyddiol ers amser hir. Mae mawn, ar ôl ei sychu, yn danwydd gwych ac roedd ei dorri'n arferiad cyffredin yma tan y 1960au.

Ar ben deheuol y llwybr pren gallwch weld rhai o'r hen fannau torri. Maent wedi eu llenwi â dŵr glaw neu laswellt y gweunydd lliw gwellt ac mae'n amlwg beth ydyn nhw o'u hochrau siâp rheolaidd. Mae ynddynt lai o blanhigion ac anifeiliaid na chynefin arferol y gors.

Fe allech weld coed a llwyni (prysgoed) yn cael eu torri os byddwch yn ymweld yn y gaeaf. Mae hyn i gyd yn rhan o waith CNC o ofalu am Gors Caron. Mae'r fedwen a'r helygen yn ennill tir yn y lleoedd mwy sych, yn enwedig ble arferai mawn gael ei balu. Mae ardaloedd bach o brysgoed yn dda ar gyfer bywyd gwyllt ond mae angen i ni reoli faint mae'n lledaenu. Fel arall, byddai'r gwlypdir yn sychu, yn troi'n goetir ac yn colli ei blanhigion ac anifeiliaid arbennig.

Peat-cutters then and tree-fellers now

It may seem a wetland wilderness now, but Cors Caron has long been exploited. Peat, when dried, makes a great fuel and cutting it was commonplace here until the 1960s.

At the southern end of the boardwalk you can see some of the old cuttings. Filled with rainwater or with straw-coloured purple moor grass, their regular-shaped sides are a giveaway. They are poorer in plants and animals than the natural bog habitat.

You may see trees and shrubs (scrub) being cut if you visit in winter. This is all part of NRW's work of caring for Cors Caron. Birch and willow are taking over in the drier places, especially where peat was once dug. Small areas of scrub are good for wildlife but we need to control its spread. Otherwise the wetland would dry out, become woodland and lose its special plants and animals.

Bywyd gwyllt i edrych amdano...

Afon bywyd

Mae Afon Teifi fel rhuban du, yn ymlwybro trwy Gors Caron. Yn yr haf, mae carpedi gwyrdd o ddyfrllys y gors yn arnofio ar ei ferddyfroedd mwy araf eu llif. Mae'r dyfroedd hyn, sydd wedi eu staenio gan fawn, yn cuddio pilcod a chrethyll, sy'n rhan o ddietau dyfrgwn sy'n bridio yma. Yn anarferol, weithiau gallwch weld dyfrgwn Cors Caron yn ystod y dydd. Ewch yn dawel a bwrw golwg dros y llethrau a'r dŵr. Efallai y byddwch yn lwcus!

Troi pryfyn yn gawl?

Mae gwllithlys yn gallu byw mewn amodau gwlyb iawn ac nid ydynt yn gwneud eu bwyd eu hunain gan ddefnyddio golau'r haul neu fwynau o'r pridd. Yn lle hynny, mae ganddyn nhw fyddin o flew bach, bach o gwmpas pob deilen fras â dafn bach o hylif gludiog ar bob pen. Caiff unrhyw bryfyn bach sy'n crwydro i'r dafnau gludiog hyn ei ddal a'i ludo'n gadarn yn ei le. Mae'r planhigyn wedyn yn troi'r pryfyn yn gawl ac yn ei fwyta.

Adar y gors

Mae pibyddion coesgoch, giachod cyffredin a'r gylfinir sy'n fwyfwy prin yn nythu yn llystyfiant y gors a llethrau Afon Teifi. Mae hwyaid gwyllt a chorhwyaid yn bridio ger pyllau'r gors. Mae'r rhegennod dŵr diog yn anoddach i'w gweld - maen nhw'n haws eu clywed!

Bron bob man ar draws y gwlypdir mae corhedyddion ac ehedyddion.


Mae adar ysglyfaethus fel barcutiaid coch, bwncathod a bodaod tinwyn yn hela ar draws y gors, a chigfrain yn pasio uwchben â'u hadenydd swnllyd a'u clegr yng nghefn eu gyddfau.



dyfrgi | otter



gwllithlys mawr | sundew



pibydd coesgoch | redshank

Wildlife to look out for...

boda tynwyn
hen harrier
© Clive Hurford

River of life

Like a black ribbon, the River Teifi meanders through Cors Caron. In summer, its slower flowing backwaters have floating carpets of dark, olive-green bog pondweed. These peat-stained waters hide minnows and sticklebacks, part of the diet of otters that breed here. Unusually, Cors Caron's otters are sometimes seen by day. Go quietly and scan the banks and water. You might be lucky!

A sticky end?

Sundews are able to live in very wet conditions and don't make their own food using sunlight or nutrients from the soil. Instead they have an army of tiny hairs around each fleshy leaf, with a tiny drop of sticky liquid at each tip. Any small insect that wanders into these sticky droplets is held firm, superglued in place. The plant then turns the insect into soup and digests it.

Bog-loving birds

Noisy redshanks, snipe and the increasingly rare curlew nest amongst the bog vegetation and the banks of the River Teifi. Ducks like mallards and teal breed near bog pools. The skulking water rail is harder to spot - easier to hear!

Virtually everywhere across the wetland there are meadow pipits and skylarks.

Birds of prey abound with red kites, buzzards, and hen harriers hunting across the bog, whilst ravens pass overhead with their audible wing flaps and deep-throated honks.



ER EICH DIOGELWCH

- Cadwch at y llwybr bordau a'r droedffordd a gwisgwch bâr da o esgidiau cerdded.
- Byddwch yn ofalus, gall sigaréts a daflwyd achosi tannau 'n hawdd mewn glaswelltir tal.
- Os ddewch o hyd i wiber peidiwch â chyffwrdd!
- Mae anifeiliaid fferm yn pori rhannau o'r warchodfa - peidiwch â mynd yn agos atynt neu geisio eu bwydo.
- Helpwch ni drwy fod yn berchennog ci cyfrifol:
 - Cadwch eich ci ar dennyn os gofynnir i chi wneud hynny a chadw'ch cŵn dan reolaeth mewn manau eraill rhag iddynt darfu ar adar sy'n nythu ar y ddaear.
 - Ni chaniateir cŵn ar **Lwybr Glan yr Afon**.
 - Cliriwch faw eich ci a chael gwared ohono yn gyfrifol; mae "fflicio â ffon" yn dda!

FOR YOUR SAFETY

- Please keep to the boardwalk and paths and wear shoes with a good grip.
- Please be careful, tall grasses can easily catch fire from discarded cigarettes.
- If you see an adder do not approach it.
- Livestock graze parts of the reserve - do not approach or try to feed them.
- Please help us by being a responsible dog owner:
 - Keep your dog on a lead where asked to and keep dogs under close control elsewhere to avoid disturbing ground-nesting birds.
 - No dogs are allowed on the **Riverside Walk**.
 - Please clear up after your dog & dispose of dog mess responsibly; "flick with a stick" is good!



Sut mae cael hyd i ni

Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron tua dwy filltir i'r gogledd o Dregaron ar y B4343.

How to find us

Cors Caron National Nature Reserve is about two miles north of Tregaron on the B4343.

0300 065 3000

cyfoethnaturiol.cymru

naturalresources.wales

Os hoffech chi'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, rhowch wybod inni, os gwelwch yn dda: yhmoliadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000

If you would like this publication in a different format, please let us know:

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
0300 065 3000

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%
Printed on 100% recycled paper

